cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach 2024/25
# Ffurflen Cytundeb GDLIC AB

**Dyma eich ffurflen Cytundeb Dysgu.**

Coleg

Enw'r myfyriwr

Dyddiad geni'r myfyriwr — Dydd Mis Blwyddyn

Cyfeirnod cwsmer

Gwybodaeth ychwanegol — Rhif Adnabod y Myfyriwr :

## Cytundeb Myfyriwr

**Darllenwch y cytundeb hwn yn ofalus**

Ni fydd modd i ni symud ymlaen gyda'ch cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLLC AB) os na fydd eich coleg wedi cadarnhau eich bod wedi llofnodi'r cytundeb grant dysgu hwn a nodi'r dyddiad arno.

- Rydw i'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod y wybodaeth a roddais i wasanaethau cwsmeriaid GDLLC AB yn gywir ac yn gyflawn.
- Rydw i'n cadarnhau nad wyf wedi cael unrhyw gyllid arall gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cwrs neu'r lefel astudio hon. Sylwer, ni fydd hyn yn berthnasol os ydych wedi cael Lwfans Cynhaliaeth ac Addysg yn flaenorol.
- Deallaf y bydd unrhyw ymgais i geisio sicrhau GDLLC AB mewn ffordd anonest yn cael ei thrin fel twyll ac fe allai arwain at ddwyn achos troseddol a/neu sifil yn fy erbyn.
- Fel rhan o'r GDLLC AB, deallaf y gallai'r wybodaeth a ddarparwyd gennyf gael ei hadolygu fel rhan o archwiliad sampl.
- Os byddaf yn gadael fy nghwrs, rydw i'n cadarnhau y byddaf yn ad-dalu'r holl lwfans GDLLC AB, neu rywfaint ohono, ar gyfer y flwyddyn gyfan neu ran ohoni.

## Iaith gohebiaeth a ffefrir

Pa iaith hoffech chi i ni ddefnyddio pan fyddwn ni'n cyfathrebu gyda chi? ☐ Saesneg ☐ Cymraeg

## Caniatâd i rannu

A ydych chi'n cydsynio i'ch coleg yn rhannu gwybodaeth gyda'ch rieni neu partner? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

## Amgylchiadau Eithriadol

A ydych chi ar hyn o bryd yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau esgusodol cyfredol a allai effeithio ar eich presenoldeb (er enghraifft, eich bod yn gofalu am aelod o'r teulu sy'n sâl neu'n anabl)? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Dylech chi hysbysu eich coleg os ydych yn dod yn ymwybodol ar unrhyw adeg o amgylchiadau esgusodol a allai effeithio ar eich presenoldeb.

## Manylion y Cwrs

Teitl y Cwrs :



Nawr trowch i'r dudalen nesaf

## Meini Prawf Mynychu

- I dderbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i chi fynychu 100% o'r gwersi ar eich amserlen. Mae Grŵp Llandrillo Menai'n sylweddoli nad yw presenoldeb o 100% yn bosibl bob amser ac o ganlyniad disgwylir i chi gael presenoldeb o 90% bob tymor.
- Bydd angen i bob dysgwr sicrhau presenoldeb o 100% am bythefnos lawn yn Nhymor 1 cyn i daliadau gael eu hawdurdodi. Yn Nhymor 2 bydd angen i bob dysgwr sicrhau presenoldeb o 90% am bythefnos lawn cyn i daliadau gael eu hawdurdodi, ac yn Nhymor 3 bydd angen i bob dysgwr sicrhau presenoldeb o 90% am un wythnos lawn cyn i daliadau gael eu hawdurdodi.
- Gall patrwm rheolaidd o fod yn hwyr effeithio ar daliadau.
- Bydd disgwyl i chi roi gwybod i'ch Tiwtor Personol os na fyddwch chi'n gallu dod i'r coleg oherwydd salwch.
- Gall dysgwr hunanardystio salwch trwy gysylltu â'r tiwtor personol i egluro pam nad yw'n gallu dod i'r coleg. Ni ellir hunanardystio am fwy na 5 diwrnod am un cyfnod olynol o salwch.
- Am gyfnodau o salwch sy'n hwy na 5 diwrnod neu am gyfnodau olynol rheolaidd o salwch, bydd angen llythyr gan y meddyg teulu neu weithiwr meddygol proffesiynol ar y dysgwr a bydd cefnogaeth ar gael gan y coleg.
- Mewn achos o salwch sy'n hwy na 4 wythnos a phan na fydd dysgwr yn pasio ei gwrs, yna gall taliadau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru gael eu hatal.
- Os bydd dysgwr yn cael anhawster i fynychu gwersi ar amser neu'n dioddef salwch rheolaidd, mae'n bwysig ei fod yn siarad â'i diwtor personol neu'n dod i'r Gwasanaethau i Ddysgwyr i ofyn am gefnogaeth. Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei lunio i'w helpu i wella ei bresenoldeb.
- Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gofyn i ddysgwyr:
- Hysbysu Cyllid Myfyrwyr Cymru a'r Coleg o unrhyw leihad mewn oriau, newid cwrs, neu newid mewn amgylchiadau personol.
- Gwirio eu presenoldeb ar eDrac y Dysgwyr.

## Rhestr wirio coleg

**Rhaid i hyn gael ei chwblhau gan yr coleg i gadarnhau:**

☑ Rydych wedi esbonio i'r myfyriwr sut mae cynllun GDLLC AB yn gweithio, yn cynnwys monitro presenoldeb a llwyddiannau.

☑ Rydych wedi esbonio i'r myfyriwr y bydd yn dechrau cael ei daliadau GDLIC AB pan fyddwch yn cadarnhau ei fod wedi llofnodi ei Gytundeb GDLIC AB.

☑ Byddwch yn cadarnhau fod y myfyriwr wedi llofnodi ei Gytundeb GDLIC AB ar Borth y Ganolfan Ddysgu.

☑ Byddwch yn cadarnhau presenoldeb y myfyriwr ar Borth y Ganolfan Ddysgu pob tymor.

**Myfyriwr**

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU) ____________________

Eich llofnod X ____________________ Dyddiad Dydd __ __ Mis __ __ Blwyddyn __ __ __ __

**Coleg**

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU) ____________________

Eich llofnod X ____________________

Teitl Swydd ____________________ Dyddiad Dydd __ __ Mis __ __ Blwyddyn __ __ __ __